
Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Gwella Bywyd i Blant yng Nghymru

Ein strategaeth tair blynedd **2023-2026**




www.comisiynyddplant.cymru



Comisiynydd Plant Cymru

Children's Commissioner for Wales

# Croeso...



**Dwi wedi bod yn gwario fy mlwyddyn cyntaf fel Comisiynydd yn gwrando i filoedd o blant a phobl ifanc, yn ogystal â'u teuluoedd a'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw. Er bod gen i syniadau fy hun ar welliannau i fywydau plant Cymru, roeddwn ni'n awyddus clywed wrth blant a phobl ifanc a'r rheiny sy'n gofalu amdanynt, am eu syniadau nhw ar sut i wella bywyd i blant yng Nghymru.**

Er bod rhai o'r blaenoriaethau yn y strategaeth hon yn gysylltiedig gyda fy ngweledigaeth a sut yr hoffen ni weld y tîm yn gweithio, mae'r canrhan helaeth o'r dystiolaeth sy'n llywio'n gwaith dros y tair blynedd nesaf yn dod o'n ymgynghoriad mawr, 'Gobeithion i Gymru'.

Fe wnaeth,

**8,830** **o blant a phobl ifanc**

gwblhau'n harolwg, gan gynnwys arolygon penodol wnaethon ni greu i reiny dan 7 oed a rheiny sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog (PMLD).

Fe wnaethon ni hefyd glywed gan

**507** **o bobl broffesiynol** a **876** **o rieni a gofalwyr**

Medrwch ddarllen canfyddiadau 'Gobeithion i Gymru' yma a byddwn ni'n defnyddio'r canlyniadau i lywio'n gwaith dros y tair blynedd nesaf.

Hoffwn ddiolch o galon i'r

**10,213** **o bobl**

wnaeth gymryd amser i rannu cipolwg mor gyfoethog i'w bywydau gyda ni. Rydyn ni wedi gwrando; mae'n amser nawr i weithredu.

**Rocio Cifuentes MBE**
Comisiynydd Plant Cymru
Ebrill 2023

# Pwy ydyn ni...



**Mae cyfres o gyfreithiau'n nodi beth dylai Comisiynydd Plant Cymru ei wneud i ddiogelu a hybu hawliau plant. Mae gennym ni hawl i weithio gyda phob plentyn yng Nghymru hyd at 18 oed, neu hyd at 21 oed os ydyn nhw wedi bod mewn gofal, neu 25 os ydyn nhw wedi bod mewn gofal ac maen nhw'n dal mewn addysg.**

Mae rhai safonau a dyletswyddau cenedlaethol mae rhaid i ni eu dilyn fel sefydliad, gan gynnwys Safonau'r Gymraeg, Deddf Cydraddoldeb a Dyletswydd Bioamrywiaeth. Er nad oes dyletswydd arnon ni i wneud hynny, rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Rydyn ni'n adrodd ar sut rydyn ni'n cydymffurfio â'r rhain i gyd yn ein Hadroddiad Blynyddol.

Rydyn ni hefyd yn sefydliad sy'n falch o fod yn wrth-hiliol, yn gyflogwr Hyderus ynghylch Anabledd, ac wedi ymrwymo i egwyddorion ymgyrchoedd Cymraeg Clir a Plain English.

Tîm o 24 o staff sy'n cyflawni ein holl waith, dan arweiniad Comisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes MBE. Cychwynnodd Rocio yn y swydd ym mis Ebrill 2022, a bydd hi'n gomisiynydd plant i Gymru am saith mlynedd.



## Ein gweledigaeth

**Mae'r Comisiynydd wedi nodi'r canlynol fel ei gweledigaeth am ei chyfnod yn y swydd: "Cymru yn wlad lle bod pob plentyn a person ifanc yn deall eu hawliau, eu bod yn ymwybodol bod yna gomisiynydd sydd yno i sefyll fyny dros yr hawliau hynny, a'u bod nhw'n medru derbyn cefnogaeth i gael mynediad i'r holl hawliau hynny."**

## Ein cenhadaeth

**Rydyn ni'n gwrando ar blant a phobl ifanc yng Nghymru, ac yn codi llais ar eu rhan fel bod hawliau plant yn cael eu diogelu, ac rydyn ni'n cefnogi, yn herio ac yn dylanwadu ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, er mwyn cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau.**

# Ein pwrpas

Rydyn ni'n gweld bod gennym ni **bedwar pwrpas**, sy'n ein galluogi i gyflawni ein cyfrifoldebau ffurfiol o warchod ac hyrwyddo hawliau plant yng Nghymru.

Dyma nhw:

## 1 Yma i bob plentyn

**Rydyn ni'n gwrando ac yn gwneud yn siŵr ein bod ni'n hygyrch i bob plentyn yng Nghymru, er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu codi llais yn effeithiol ar eu rhan a'u cynrychioli yn y ffordd sy'n cael yr effaith fwyaf.**

Fel tîm bychan o staff, rydyn ni'n sylweddoli na allwn ni weithio'n ynysig i feithrin perthynas effeithiol, llawn ymddiriedaeth gyda phob plentyn, felly bydden ni'n hoffi gweithio mewn partneriaeth â phobl sydd â'r perthnasoedd cadarn hynny gyda phlant a phobl ifanc ledled Cymru i weld beth sy'n bwysig iddyn nhw a pha faterion bydden nhw'n hoffi i ni hyrwyddo ar eu rhan. Mae manteisio'n llawn ar wybodaeth a data ynghylch plant a phobl ifanc hefyd yn bwysig i ni, a bydden ni'n hoffi gwneud yn siŵr ein bod ni'n cael y budd mwyaf o'r cyfoeth o ddata mae partneriaid yn ei gasglu am fywydau plant, yn ogystal â chasglu ein gwybodaeth ein hunain.

## 2 Arwr Hawliau

**Rydyn ni'n cefnogi ac yn addysgu plant a phobl ifanc i wybod am eu hawliau dynol a'u deall, ac rydyn ni'n cefnogi ac yn cynghori gwasanaethau cyhoeddus ar hybu a diogelu hawliau plant.**

Mae rhwymedigaethau statudol ar rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i gynyddu ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yng Nghymru, ac mae eraill wedi ymrwymo i wneud hyn. Bydden ni'n hoffi gweithio gyda'r cyrff hynny i sicrhau bod strategaeth gydlynus yng Nghymru ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, megis awdurdodau lleol a byrddau iechyd, hefyd yn chwarae rhan hollbwysig ym mywydau plant, ac o ganlyniad yn allweddol wrth wireddu hawliau plant. Bydden ni'n hoffi gweithio gyda nhw i sicrhau bod hawliau plant yn cael y lle blaenaf wrth wneud penderfyniadau, a'n bod ni'n galluogi plant yng Nghymru i gael y cyfle gorau posibl i wireddu eu hawliau.

## 3 Goleuo'r Gwir

**Byddwn ni'n cefnogi ac yn grymuso plant i godi llais a rhannu eu profiadau amrywiol gyda llunwyr penderfyniadau. Byddwn ni'n goleuo'r gwir ar faterion penodol ac yn chwyddo hanesion sydd heb eu clywed trwy ddatblygu ein gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu.**

Mae plant a phobl ifanc yn ymddiried ynon ni gyda'u profiadau, da a drwg. Mae angen i ni sicrhau bod y profiadau hynny nid yn unig yn dylanwadu ar ein gwaith, ond hefyd yn cael lle canolog wrth ddatblygu a gweithredu polisi yng Nghymru. Fel pencampwr plant, ein bwriad yw sicrhau bod y profiadau hyn yn cael eu rhannu'n effeithiol gyda chyrff cyhoeddus yng Nghymru, i helpu i ddylanwadu ar newid.

Mae'r Comisiynydd yn rhan allweddol o fywyd dinesig Cymru, ac mae mewn sefyllfa freintiedig trwy allu siarad yn uniongyrchol â llunwyr penderfyniadau, llywodraethau a chyfryngau cenedlaethol. Rydyn ni am sicrhau ein bod ni'n defnyddio'r sefyllfa honno i gael yr effaith fwyaf

## 4 Heriwr

**Byddwn ni'n herio ac yn cefnogi eraill i sicrhau bod hawliau dynol plant yn cael eu gwireddu. Er ein bod ni'n awyddus i weithio mewn partneriaeth, ni fyddwn yn ofni parhau i dynnu sylw at wasanaethau gwael, penderfyniadau gwael a dewisiadau gwael os ydyn nhw'n cael effaith negyddol ar fywydau plant.**


Mae gennym ni bwerau i adolygu ystod o wasanaethau cyhoeddus, a fyddwn ni ddim yn ofni defnyddio'r pwerau hynny os ydyn ni'n meddwl bydd hynny o fudd i fywydau plant. Fyddwn ni ddim yn osgoi penderfyniadau anodd, sgyrsiau anodd a sefyllfaoedd anodd os yw hynny'n creu gwell canlyniadau i blant. Byddwn ni'n herio â thystiolaeth ac â lleisiau pobl ifanc.

# Beth byddwn ni'n gwneud yn ystod y tair blynedd nesaf

Isod rydyn ni wedi cynnwys y newidiadau bydden ni'n hoffi eu gweld yn digwydd i holl blant Cymru erbyn 2026. Rydyn ni'n sylweddoli bod y canlyniadau yr hoffem weld yn y boblogaeth yn fwy na ni, eu bod nhw efallai'n mynd i gymryd sawl blwyddyn i wireddu, ac y bydd angen ymdrech gan bob gwasanaeth cyhoeddus, ond rydyn ni'n meddwl bod angen i ni fod mor uchelgeisiol â phosib ac mor glir â phosib am y newidiadau hoffen ni weld ym mywydau plant.

Rydyn ni hefyd wedi cynnwys manylion am ein rôl wrth helpu i gyflawni'r gwelliannau yma. Mi fyddwn ni'n cyhoeddu mwy o fanylion manwl bob blwyddyn ar sut fyddwn ni'n mynd ati i gyflawni'r holl waith yma.

**Yn ystod y tair blynedd nesa, byddwn ni'n canolbwyntio ar y canlynol:**



# Pwrpas:
# Yma i bob plentyn

**Rydyn ni'n gwrando ar holl blant Cymru ac yn gwneud yn siŵr ein bod ni'n hygyrch i bob un, er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu codi llais yn effeithiol ar eu rhan a'u cynrychioli yn y ffordd sy'n cael yr effaith fwyaf.**

Canlyniad i'r boblogaeth: Bod pob plentyn yn cael eu cynrychioli a'u clywed yng Nghymru.

**Sut byddwn ni'n gyrru'r canlyniadau?**

Yn ystod y tair blynedd nesa' byddwn ni'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Meithrin partneriaethau addas i'n galluogi i weithio ar y cyd ag eraill
- Gwneud yn fawr o ddata – ydyn ni'n gwneud y defnydd gorau o'r data rydyn ni'n ei gasglu, ac ydyn ni'n defnyddio data pobl eraill yn effeithiol e.e. arolygon graddfa fawr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) a Chwaraeon Cymru
- Llenwi'r bwlch tystiolaeth ac ymgysylltu o ran grwpiau penodol o blant (gan gynnwys plant mewn gofal) trwy gynllun ymgysylltu manwl
  - Adolygu strwythurau cyfranogiad ieuenctid yng Nghymru i sicrhau eu bod nhw mor effeithiol â phosib wrth alluogi plant a phobl ifanc i godi llais a bod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau
  - Archwilio sut rydyn ni'n atebol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys gwaith i ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o weithio gyda Senedd Ieuenctid Cymru

**Rydyn ni hefyd eisiau gwneud rhai newidiadau i sut rydyn ni'n gweithio, er mwyn bod yn siŵr ein bod ni yma i bob plentyn.**

**Mae'r newidiadau yma'n :**

- Gwneud ein sefydliad yn fwy gweladwy
- Gwneud y tîm yn fwy amrywiol.





# Pwrpas:
# Arwr Hawliau

**Rydyn ni'n cefnogi ac yn addysgu pob plentyn a pherson ifanc i wybod am eu hawliau a'u deall, ac rydyn ni'n cefnogi ac yn cynghori gwasanaethau cyhoeddus ar hybu a diogelu hawliau plant.**

Canlyniad i'r boblogaeth: Bod pob plentyn yn gwybod am eu hawliau ac yn eu deall, a bod pob gwasanaeth cyhoeddus yn parchu ac yn cynnal hawliau plant.

**Sut byddwn ni'n gyrru'r canlyniadau?**

Yn ystod y tair blynedd nesa' byddwn ni'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Gweithio gydag ysgolion a lleoliadau addysg i gyflawni'n effeithiol y ddyletswydd newydd ar hawliau dynol plant yn y Cwricwlwm i Gymru
- Adolygu a mireinio ein cynnig 'Y Ffordd Gywir', sef dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus
- Archwilio uchelgais 'Cymru sy'n croesawu Plant', gan edrych ar y posibiliadau o ran gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu hyn gyda sefydliadau sy'n rhanddeiliaid allweddol
- Creu polisi cwynion enghreifftiol i blant, er mwyn grymuso plant i gael llais ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau
- Pwyso am newidiadau angenrheidiol i'n cylch gorchwyl, gan gynnwys sicrhau mai Senedd Cymru, nid Llywodraeth Cymru sy'n penodi ac yn ariannu'r comisiynydd, ac mai i'r Senedd y mae'r comisiynydd yn atebol
- Dylanwadu ar Lywodraeth Cymru i ehangu Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru), gan estyn y ddyletswydd i ystyried hawliau plant wrth wneud penderfyniadau i gyrff cyhoeddus eraill

**Rydyn ni hefyd eisiau gwneud rhai newidiadau i sut rydyn ni'n gweithio, er mwyn bod yn siŵr ein bod ni'n arwr hawliau yn effeithiol.**

**Mae'r newidiadau yma'n cynnwys:**

- Bydd datblygiad proffesiynol parhaus i'n tîm o staff hefyd yn cefnogi'r uchelgais hon trwy raglen o ymweliadau wyneb yn wyneb a dysgu gan sefydliadau yn y gymuned sy'n cefnogi plant a phobl ifanc ledled Cymru.



# Pwrpas:
# **Goleuo'r Gwir**



**Byddwn ni'n cefnogi ac yn grymuso plant i godi llais a rhannu eu profiadau amrywiol gyda llunwyr penderfyniadau. Byddwn ni'n goleuo'r gwir ar faterion penodol ac yn chwyddo hanesion sydd heb eu clywed.**

Canlyniad i'r boblogaeth: Bod pob plentyn yn gallu rhannu eu hanesion a'u profiadau, ac yn cael eu gwrando a'u parchu.

**Sut byddwn ni'n gyrru'r canlyniadau?**

Yn ystod y tair blynedd nesa' byddwn ni'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael eu cefnogi i ymadfer yn dda wedi pandemig Covid-19
- Iechyd meddwl plant a phobl ifanc a mynd ar ôl y model Dim Drws Anghywir
- Cynnull uwch-gynhadledd genedlaethol flynyddol ar dlodi plant i herio a dylanwadu ar y Llywodraeth a gwasanaethau ynghylch camau sy'n ymwneud â thlodi plant
- Effeithiolrwydd a chysondeb gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol ar draws Cymru
- Canfod pam nad yw'r canllawiau statudol fel petaen nhw'n taclo bwlio mewn ysgolion
- Archwilio anghydraddoldeb mwy cyffredinol, gan gynnwys anabledd, hil a LHDTC+
- Llety i blant a'u teuluoedd: ble mae plant yn byw yng Nghymru?
- Taclo diffyg darpariaeth gwasanaethau allweddol, gan gynnwys ysgolion arbenigol a lleoliadau addysg
- Ymdrin ag arfer anghyson mewn ysgolion ac awdurdodau lleol yng nghyswllt gwiriadau DBS a gweithredu cyngor arfer gorau Estyn mewn perthynas â hyn

**Rydyn ni hefyd eisiau gwneud rhai newidiadau i sut rydyn ni'n gweithio, er mwyn bod yn siŵr ein bod ni'n goleuo'r gwir yn effeithiol.**

**Mae'r newidiadau yma'n cynnwys:**

– Creu cynllun ymgysylltu clir i sicrhau ein bod ni'n dryloyw ynghylch ein gwaith, yn gwneud pob ymdrech i estyn allan at gynulleidfa eang, yn dathlu ac yn cyhoeddi ein gwaith yn uchel, a bod gennym ni dîm o swyddogion yn cefnogi'r Comisiynydd sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru

– Ailwampio ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol.





# Pwrpas:
# **Heriwr**



**Byddwn ni'n herio (yn ffurfiol ac yn anffurfiol) ac yn cefnogi eraill i sicrhau bod hawliau dynol plant yn cael eu gwireddu.**

Canlyniad i'r boblogaeth: Bod gan bob plentyn yng Nghymru bencampwr pwerus, effeithiol ar gyfer eu hawliau.

**Sut byddwn ni'n gyrru'r canlyniadau?**

Yn ystod y tair blynedd nesa' byddwn ni'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Herio'r cynnydd a wnaed o ran taclo argyfwng costau byw a lefelau tlodi plant yng Nghymru trwy uwch-gynhadledd genedlaethol flynyddol ar dlodi plant i herio a dylanwadu ar y Llywodraeth a gwasanaethau ynghylch gweithredu ar dlodi plant
- Parhau i alw am drafnidiaeth gyhoeddus ddi-dâl i blant er mwyn taclo tlodi plant a iechyd meddwl gwael a'r argyfwng hinsawdd
- Sicrhau bod 'y diwygio radical ar wasanaethau presennol i blant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal' y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddo yn wir yn cyflawni newidiadau cadarnhaol ym mywydau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru
- Archwilio pa mor ddiogel yw ein plant ar-lein
- Cwestiynu pa mor effeithiol yw llywodraethiant ein gweithdrefnau amddiffyn plant yng Nghymru? Ystyried adolygiad o'r trefniadau llywodraethu amddiffyn plant
- Amlygu ble mae plant yn byw yng Nghymru. Bydd y gwaith yma'n canolbwyntio ar brofiadau plant a phobl ifanc o lety a thai, ac yn cynnwys archwilio defnydd a llety heb eu rhestru
- Herio'r diffyg cefnogaeth iechyd meddwl briodol wrth baru anghenion plant a phobl ifanc yng Nghymru
- Herio ymdrechion y llywodraeth i daclo argyfwng y newid yn yr hinsawdd, a lleisio dymuniadau plant a phobl ifanc ynghylch gweithredu ar hyn yn awr

**Rydyn ni hefyd eisiau gwneud rhai newidiadau i sut rydyn ni'n gweithio, er mwyn bod yn siŵr ein bod ni'n herio'n effeithiol.**


**Mae'r newidiadau yma'n cynnwys:**

– Mireinio a chanolbwyntio ein hymdrechion i ddylanwadu er mwyn medru bod yn sicr ein bod ni'n gwneud popeth posib i wella'r rhannau o fywydau plant maen nhw wedi dweud wrthyn ni bod angen eu gwella

– Gwella sut mae gwybodaeth yn llifo'n fewnol yn ein sefydliad, fel ein bod ni'n sicrhau'r effaith fwyaf ar sail y dystiolaeth a'r wybodaeth rydyn ni'n eu casglu am fywydau plant.



# Sut byddwn ni'n gwneud hyn



Mae gennym ni dîm o 24 o staff sy'n cael eu harwain gan y Comisiynydd. Rydyn ni'n gweithio fel un tîm mawr i gyflawni ein holl waith. Mae gennym ni rai arbenigeddau hefyd; dyma sut mae'n gweithio o ddydd i ddydd:

### 1 Yma i bob plentyn:

mae ein **tîm cyfranogiad** yn cyflawni gwaith ledled Cymru, yn gwrando ar blant, yn gweithio gyda'r rhai sy'n gweithio gyda phlant, yn cefnogi plant ac oedolion i ddysgu a deall mwy am hawliau plant.

### 2 Arwr Hawliau:

mae ein **gwasanaeth ymchwiliadau a chyngor** annibynnol, di-dâl ar gael i blant, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n teimlo bod hawliau plant heb gael eu parchu. Rydyn ni'n gweithio i ddatrys y materion hyn ac yn bwydo enghreifftiau o waith achosion i mewn yn dystiolaeth o newidiadau ehangach y gallen ni benderfynu eu bod yn angenrheidiol i ddiogelu hawliau plant a gwella bywydau plant yng Nghymru.

### 3 Goleuo'r Gwir:

mae ein **gwaith cyfathrebu** yn sicrhau bod y rhai sydd â phŵer yn clywed profiadau plant ac yn gwneud newidiadau o ganlyniad. Rydyn ni'n bwrw goleuni ar faterion sy'n effeithio ar blant, ac yn defnyddio pob cyfle i rannu profiadau a barn plant.

### 4 Heriwr:

fel rhan o'n **gwaith polisi** rydyn ni'n dylanwadu ar lunwyr penderfyniadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i ystyried a chynnal hawliau dynol plant yn eu holl benderfyniadau. Pan fydd cyrff cyhoeddus yn gwneud addewidion, byddwn ni'n sicrhau ein bod yn dilyn eu hynt, er mwyn sicrhau bod addewidion i blant a phobl ifanc yn cael eu cadw.

Mae ein harbenigwyr **TG, Adnoddau Dynol, ariannol a staff craidd hanfodol** yn gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud yr holl waith yma'n ddiogel, ac yn unol â chyfreithiau a rheoliadau.





Mae'r Comisiynydd hefyd yn cael eu harwain a'u herio gan **ddau banel ymgynghorol**:

- panel ymgynghorol oedolion: aelodaeth yn cynnwys i fyny at 16 o oedolion amrywiol proffesiynol ac arbenigwyr o ganlyniad i brofiad, o ar draws Cymru; a
- phanel ymgynghorol sy'n cynnwys i fyny at 40 o blant a phobl ifanc 11-18 oed, sydd â phrofiadau helaeth ac eang a nodweddion gwarchodedig o ar draws Cymru.

## Y gair olaf gan y Comisiynydd...

Mae lleisiau, anghenion a phrofiadau plant a phobl ifanc yn gyrru ein gwaith i gyd. Mae'r holl waith yma wedi'i seilio ar ein gwerthoedd, Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, a'n hegwyddorion yn 'Y Ffordd Gywir' o wreiddio, cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu, grymuso, cyfranogaeth ac atebolrwydd.

Mae cynyddu'n gwelededd, ein amrywiaeth, ac hygyrchedd y sefydliad yn gyrru llawer o'r hyn rydyn ni am lwyddo, yn ogystal â sicrhau bod ein gwaith a ffocws clir, bod ein staff yn cysylltu'n ddyddiol gyda'n pwrpas a'n bod ni'n gwneud y mwyaf o'r dystiolaeth rydyn ni'n casglu i hysbysu'n gwaith dylanwadu.

Yn ogystal, rydyn ni wedi sylweddoli os ydym am fod yn llwyddiannus yn arwain a gyrru newidiadau ym mywydau plant Cymru, mae'n rhaid i ni weithio mewn partneriaeth ag eraill, i rannu ein negeseuon pwysig, cynyddu'n effaith, ond wrth wneud hyn ein bod ni'n gwarchod annibynniaeth y sefydliad hon sydd bellach yn 22 mlwydd oed. Mae gen i ond chwe' mlynedd i wneud gwahaniaeth. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda'r tîm a phobl led-led y wlad i yrru canlyniadau gweladwy ym mywydau plant.

www.comisiynyddplant.cymru
T: 01792 765600
E: post@complantcymru.org.uk
Twitter: @Childcomwales
Facebook: @childcomwales

Llinell gymorth cyngor rhadffôn:
0808 801 1000

Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales